



Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

Cwestiynau Cyffredin

Sut ydw i'n gwneud cais i'r gronfa?

Am ffurflen gais a chanllawiau, ewch i www.clocaenog.cymru. Argymhellwn yn gryf eich bod yn cysylltu â Rheolwr y Gronfa neu ag un o swyddogion Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC) cyn cwblhau na chyflwyno cais.

Pryd yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a faint o gylchoedd cyllido fydd ar gael bob blwyddyn?

Gwahoddir ceisiadau pryd bynnag eu bod yn barod a byddant yna'n cael eu hasesu yn y cyfarfod panel nesaf. Da chi peidiwch â rhuthro i wneud cais, rydych yn fwy tebygol o lwyddo os cymrwch amser i gwblhau cais a chyflwyniad da. Bydd y panel lleol yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i benderfynu ceisiadau.

Ydy fy mhrosiect yn y lle iawn i fod yn gymwys i wneud cais i'r gronfa?

Ewch i www.clocaenog.cymru i weld yr ardal lawn fydd yn elwa o'r gronfa a gallwch wedyn weld a yw eich prosiect yn un o'r parthau cymwys.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng parthau?

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau o Barth 1. Ni fydd unrhyw gais da o Barth Blaenoriaeth Lleol 1 yn colli allan ar draul parthau ehangach 2 a 3. Yn syml, y cymunedau sydd agosaf i'r safle fydd yn cael blaenoriaeth.

Yn y cylch cyllido cyntaf, bydd prosiectau parthau 2 a 3 yn cael eu hasesu'n gyfartal gan y panel lleol.

Nid yw'r cyllid wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw o gwbl ond bydd y panel yn monitro dosbarthiad teg y cyllid ar draws yr ardal fudd ac ar draws y gwahanol barthau. Gallai'r parth hefyd gael ei ddefnyddio yn y dyfodol i roi mwy o hbylgrwydd o ran sut y mae'r cyllid yn cael ei ddarparu, er enghraifft gellid addasu canllawiau'r cyllid ar gyfer gwahanol barthau.

Sut gafodd y canllawiau ar gyfer y gronfa eu penderfynu?

Mae RWE wedi gwrando ar farn dros 500 o bobl mewn ymgynghoriad yn 2018 gan ddefnyddio'r canlyniadau i benderfynu ar strwythur terfynol y gronfa. Penodwyd CVSC fel gweinyddwyr y gronfa'n dilyn ymarfer tendro trylwyr.

Aeth CVSC ymlaen wedyn i recriwtio panel o bobl leol i wneud penderfyniadau. Bu'r panel penderfynu yna'n gweithio gyda CVSC, gan ystyried canlyniadau ymgynghoriad 2018 yn llawn, i greu a chytuno ar ganllawiau'r gronfa. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau, bydd gan y panel rôl bwysig mewn llywio cyfeiriad y gronfa yn y dyfodol.

Mae fy mhrosiect yn disgyn yn yr ardal sy'n gorgyffwrdd ag ardal Cronfa Fferm Wynt Gwynt y Môr – beth ddylwn ei wneud?

Dylid cyflwyno unrhyw gais am brosiectau 'pen eu hunain' yn yr ardal hon i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr a bydd angen bodloni'r meini prawf perthnasol.

Fodd bynnag gellir cynnwys yr ardal hon yn unrhyw un o ardaloedd budd ehangach Clocaenog neu Hiraethog, ac yn yr achos hwn byddai'r cais cyfan yn cael ei gyflwyno i Gronfa Gymunedol Clocaenog a byddai angen bodloni'r meini prawf perthnasol.

Am fwy o gyngor dylech gysylltu naill â Rheolwr Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog neu Reolwr Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gwynt y Môr i drafod eich prosiect ac a fyddai'n briodol gwneud cais.

Mae fy mhrosiect y tu allan i'r ardal fudd ond mae'n darparu bron pob un o'r gweithgareddau i bobl sy'n byw oddi mewn i'r ardal fudd. A allaf wneud cais?

Dylech gysylltu â Rheolwr Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog i drafod eich prosiect ac a fyddai'n briodol i chi wneud cais.

Beth ddylwn ei wneud os wyf angen help gyda fy nghais?

Cysylltwch i drafod hyn â Rheolwr Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog neu un o swyddogion cyllid CVSC, fydd yn gallu eich cyfeirio at y bobl berthnasol i'ch helpu.

Pryd fydd y gronfa'n agor i fusnesau gael ymgeisio?

Byddwn yn ceisio agor y gronfa i feicro-fusnesau yn ystod 2021.

Sut fath o brosiectau y mae busnesau'n debygol o allu gwneud cais i'r gronfa amdanynt?

Mae'r panel wrthi'n datblygu'r meini prawf ar gyfer meicro-fusnesau.

Pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau?

Mae panel gwirfoddol o gynrychiolwyr lleol wedi eu recriwtio a'r bobl hyn fydd yn penderfynu'r ceisiadau. Y nod oedd sicrhau bod y panel mor gymysg ac amrywiol â phosib, gyda chynrychiolaeth eang ar sail cefndir, daearyddiaeth, oed a phrofiad, ac yn y blaen. Bydd y panel lleol hefyd yn rhan o lywio i ba gyfeiriad fydd y gronfa'n mynd yn y dyfodol.

A allaf ddod yn aelod o'r panel yn y dyfodol?

Os bydd lle'n dod ar gael ar y panel, bydd CVSC yn hysbysebu'r lle ar www.clocaenog.cymru ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Pryd fydda i'n cael gwybod a oedd fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd y panel yn cyfarfod pob chwarter. Bydd Rheolwr Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn cysylltu i roi gwybod am benderfyniad y panel ar ôl eu cyfarfod, drwy'r post neu e-bost.

Sut fydda i'n cael gwybod pa brosiectau a lwyddodd i gael cyllid?

Os ewch i www.clocaenog.cymru bydd y newyddion diweddaraf am y gronfa'n cael ei gyhoeddi. Mae'r gronfa hefyd ar Facebook @ClocaenogCF ac ar Twitter @ClocaenogCF.

Pryd fydd y cyllid yn dod i ben?

Mae hwn yn gyllid hirdymor ac mae RWE Renewables wedi ymrwymo i ddarparu'r gronfa drwy gydol oes y fferm wynt. Rydyn ni'n disgwyl y bydd hynny'n hyd at 25 mlynedd.

Os gwrthodir fy nghais, a allaf wneud cais arall?

Byddwch yn derbyn adborth ar eich prosiect a pham y cafodd ei wrthod. Os teimlwch y gallwch ddatblygu eich prosiect a gwneud cais arall, dylech gysylltu â Rheolwr Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog am sgwrs.